

Vaughan Gething AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Julie Morgan AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dr Dai Lloyd AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Senedd Cymru

Bae Caerdydd

Caerdydd

CF99 1SN

15 Chwefror 2021

Annwyl Dai,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 29 Ionawr. Yn unol â'ch cais, rydym wedi nodi isod ein hymateb i'r materion nad oeddem yn gallu ymdrin â nhw'n llawn yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor.

Manylion unrhyw ymrwymadau ariannol pellach dros y tymor hwy y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu gwneud i gefnogi'r sector, yn benodol i sicrhau bod cartrefi gofal yn parhau i fod yn hyfyw.

Mae gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i roi iechyd a gofal cymdeithasol ar frig y blaenoriaethau ar gyfer cyllideb 2021-22. Awdurdodau lleol sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb statudol dros ddarparu gwasanaethau cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid i'r cyrff hyn drwy'r Grant Cynnal Refeniw; mae cyfanswm o £176m ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r setliad llywodraeth leol yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2021-22.

Y tu hwnt i'r buddsoddiad craidd hwn, mae gan Lywodraeth Cymru gyllidebau canolog i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol a meysydd cysylltiedig. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllidebau hyn o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £431 miliwn ychwanegol mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn 2021-22.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y Gronfa Gofal Integredig am flwyddyn arall gyda chyllideb refeniw o £89m yn 2021-22. Rheolir y Gronfa drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan ddod â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ynghyd i gyflenwi gwasanaethau ar sail anghenion dinasyddion.

Ac ystyried y pwysau sylweddol sy'n wynebu'r sector o ganlyniad i'r pandemig mae'r grant Cynaliadwyedd y Gweithlu Gofal Cymdeithasol wedi cael ei gynyddu o £40m i £50m yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22. Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn

adolygu'r meini prawf sydd ynghlwm wrth y cyllid hwn i sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi ein hamcanion strategol sy'n ymwneud â chynaliadwyedd y gweithlu.

Gwnaethom weithredu'n gyflym i roi'r cymorth ariannol angenrheidiol i Awdurdodau Lleol i'w galluogi i dalu am gostau ychwanegol darparu gofal yn ystod y pandemig drwy'r Gronfa Galedi, a thrwy ddefnyddio'r dull hwn rydym wedi darparu dros £88m i'r sector hyd yma. Yn ogystal â chefnogi costau staff ychwanegol a darpariaeth gyffredinol drwy godiad cyfradd safonol, roedd hyn hefyd yn cynnwys elfen i gefnogi Awdurdodau Lleol i ymateb i bwysau ar sefydlogrwydd y farchnad i ddarparwyr yn eu hardaloedd er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau yn ystod y pandemig. Roeddem hefyd wedi darparu £22.4 miliwn cychwynnol i gefnogi Byrddau Iechyd Lleol gyda gofal iechyd a chymorth ar gyfer gofal iechyd parhaus hyd at ddiwedd mis Medi 2020 ac, ers hynny, rydym wedi ymestyn y ddarpariaeth hon gyda £22.4m arall ar gael tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ar hyn o bryd, mae'r Gronfa Galedi, a'r cymorth ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol, yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth ond rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd am hyn gan bartneriaid yng nghyd-destun pandemig sy'n parhau.

Dywedodd y Gweinidog Cyllid yn y gyllideb ddrafft y byddwn yn adeiladu ar y nifer fach o ddyraniadau ar gyfer ymateb i Covid dros yr wythnosau nesaf ac yn y Gyllideb derfynol, unwaith y gallwn wneud asesiad gwell ynglŷn â'r ffordd orau o dargedu cyllid yn 2021-22. Yn benodol, ystyried pa gyllid ychwanegol sydd ei angen i gefnogi'r GIG a llywodraeth leol wrth iddynt chwarae rhan flaenllaw yn ein hymateb i'r pandemig.

Bydd yr angen am gefnogaeth barhaus ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion yn cael ei ystyried ochr yn ochr â phwysau eraill ar lywodraeth leol yn y cyd-destun hwnnw.

Manylion am sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwella mynediad at ofal seibiant i ofalwyr di-dâl yn ystod y pandemig.

Mae awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu ystod o gymorth i ofalwyr di-dâl (gofalwyr) yn unol â'u dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan gynnwys sicrhau bod gofalwyr yn gallu cael asesiad o anghenion gofalwyr. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol barhau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn ogystal ag anghenion gofalwyr. Mae seibiant i ofalwr yn angen cymwys, ond rydym yn deall yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar ddarparu gwasanaethau cymorth lleol wyneb yn wyneb.

Rydym yn disgwyl i ddarpariaeth yn y gymuned ynghyd â mathau eraill o ddarpariaeth gael eu hail-agor cyn gynted â'i bod yn ddiogel gwneud hynny. Mae awdurdodau lleol a'r trydydd sector wedi bod yn hyblyg o ran datblygu ffyrdd eraill o gynnal cyswllt a darparu mathau o seibiant, fel galwadau ffôn cadw mewn cysylltiad a gweithgareddau ar-lein. Fe wnaethom roi £50k ychwanegol i Gofalwyr Cymru i gynnal eu sesiynau cymorth seicolegol MeTime ar-lein, ac mae'r rheiny wedi bod yn boblogaidd. Mae cymunedau a byrddau iechyd lleol hefyd wedi bod yn greadigol ac wedi datblygu dulliau gweithredu amgen; er enghraifft, yn Rhondda Cynon Taf maen nhw wedi defnyddio cyllid o'n dyraniad £1m i Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf o Gronfa Gofalwyr y Bwrdd Iechyd Lleol i ddarparu'r Prosiect Cefnogi Gofalwyr. Mae wedi bod yn darparu amrywiaeth o weithgareddau, gweithdai a digwyddiadau cymdeithasol er

mwyn helpu i fyw yn ogystal â gofalu, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i roi cyngor; dosbarthu pecynnau i atal difflastod; gweithgareddau ar-lein fel dosbarthiadau cadw'n heini; gweithdai ar bynciau fel rheoli gorbryder eich plentyn; bwyd a hwyliau gyda maethydd; a phethau hwyl fel rhith-nosweithiau tecawê.

Mae ein Cyllid Gofal Integredig hefyd yn darparu cymorth uniongyrchol i brosiectau sy'n galluogi gofalwyr i fanteisio ar gyfleoedd seibiant a helpu i wella llesiant y gofalwyr eu hunain. Yn 2020-21, roedd gwariant uniongyrchol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar ofalwyr yn £8.9m. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn cynyddu yn 2021-22 gyda gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn parhau i fod yn grŵp blaenoriaeth o fewn y rhaglen ariannu. Mae'r Cyllid Gofal Integredig felly'n helpu i gyflawni'r tair Blaenoriaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr, gan gynnwys "Helpu i fyw yn ogystal â gofalu".

Gan edrych ymlaen at y darlun ehangach o sut mae gofalwyr yn dymuno cael cymorth seibiant priodol ac amserol, mae swyddogion wrthi'n dadansoddi mwy na 80 o ymatebion i'n hymgyngoriad cyhoeddus er mwyn datblygu cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer gofalwyr. Cafodd cwestiynau penodol am seibiant a gwyliau byr eu cynnwys yn y ddogfen ymgynghori ac rydym yn ystyried y safbwyntiau hyn ac enghreifftiau o arferion da. Mae ein Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr hefyd wedi bod yn trafod seibiant fel mater allweddol ar gyfer gofalwyr, a byddan nhw'n gweithio gyda ni i weld beth yw'r ffordd orau i sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ddarparu seibiant a / neu wyliau byr, i ofalwyr o bob oed.

Eich barn ynglŷn â'r dystiolaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i chlywed gan randdeiliaid ynghylch pryderon y gallai'r ffaith bod defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr di-dâl wedi 'ymdopi' gyda llai o wasanaethau gofal a chymorth ffurfiol yn ystod y pandemig gael ei ddehongli fel arwydd bod angen llai o ymyrraeth arnynt gan wasanaethau cymdeithasol yn y dyfodol.

O ran y pecynnau gofal cymdeithasol sydd ar gael, hyd yma, yr wybodaeth rydym yn ei chael yw nad yw awdurdodau lleol a darparwyr yn lleihau pecynnau'n systematig. Fodd bynnag, mae'r mesurau diogelu ehangach sydd wedi bod yn angenrheidiol er mwyn cyfyngu ar drosglwyddo'r feirws wedi cael effaith ar sut mae pobl yn cael gafael ar ofal a chymorth. Rydyn ni'n gwybod bod rhai pobl yn dewis gwneud newidiadau eu hunain, oherwydd pryder ynghylch caniatáu i weithwyr gofal ddod i mewn i'w cartrefi a'r risg o haint yn gysylltiedig â hynny. Mae eraill wedi dewis manteisio ar allu teulu neu berthnasau sydd ar ffyrlo, sy'n gallu darparu'r gofal y mae ei angen o fewn y teulu.

Er gwaethaf yr heriau hyn, gwyddom fod unigolion, darparwyr gofal ac awdurdodau lleol wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i ystyried a dod o hyd i atebion eraill er mwyn parhau i ddarparu gofal a chymorth. Os bydd unrhyw un sydd â chynllun gofal a chymorth yn credu bod ei les corfforol neu emosiynol wedi cael ei effeithio'n andwyol yn sgil gostyngiad neu newid yn y gwasanaethau a ddarperir, dylai gysylltu ag adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol i drafod hyn ac, os oes angen, i ofyn am adolygiad o'i gynllun gofal a chymorth.

O'r cychwyn cyntaf, mae ein disgwyliadau wedi bod yn glir. Rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â'u gofynion statudol cyn hired a chyn belled ag y bo hynny'n bosibl. Dim ond os yw hyn yn hanfodol er mwyn cynnal y lefel uchaf bosibl o wasanaethau y dylid rhoi unrhyw newidiadau ar waith, a rhaid i unrhyw newidiadau fod yn rhai dros dro yn unig, yn rhai y gellir eu cyfiawnhau oherwydd amgylchiadau lleol na ellir eu hosgoi, a'u stopio ar y cyfle cyntaf posibl. Mae ein canllawiau statudol yn datgan: rhaid i ofal a / neu gefnogaeth unigolion ddychwelyd i'r trefniadau y cytunwyd arnynt cyn gynted ag y bo modd; ni ddylai'r cyfrifoldeb fod ar unigolion na'u teuluoedd/gofalwyr i sicrhau bod eu gofal a'u cefnogaeth yn cael eu hadfer; ac mae angen i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau a rhoi gwybod i'r rhai y bydd hyn yn effeithio arnynt ynglŷn â sut y caiff hyn ei wneud.

Manylion unrhyw fesurau pellach rydych chi'n eu hystyried i hwyluso ymweliadau â chartrefi gofal a sut y byddwch yn asesu effaith mesurau fel llogi podiau ar gyfer ymweliadau diogel.

Mae cyfyngiadau ar ymweliadau â chartrefi gofal wedi bod yn un o ganlyniadau anoddaf y pandemig hwn. Mae'r angen i gydbwysu hawliau pobl a chefnogi eu llesiant â'r awydd i amddiffyn pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal rhag y risg o haint yn parhau i fod yn heriol iawn. Mae amrywiolyn newydd y feirws yn ychwanegu at yr her honno ac rydym yn dal i geisio deall ei heffaith. Ein safbwynt ni yw bod yn rhaid i ni, gyda'n gilydd, wneud popeth o fewn ein gallu i helpu pobl i weld eu hanwyliad mewn ffordd sydd mor ddiogel â phosibl. Byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa a byddwn yn addasu ein cyngor a'n harweiniad os bydd angen.

Mae Cynllun Rheoli Coronafeirws Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau ar beth mae pob lefel rhybudd yn ei olygu ar gyfer ymweliadau â chartrefi gofal. Rydym wedi diweddarau ein canllawiau ymweld cenedlaethol manwl ar gyfer darparwyr cartrefi gofal (a gyhoeddwyd ar 1 Chwefror), i'w gwneud yn gyson â'r lefelau rhybudd ac i roi manylion ychwanegol ynghylch defnyddio podiau ymwelwyr yn ddiogel. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn rhoi mwy o eglurder i bawb – unigolion a'u teuluoedd, darparwyr ac awdurdodau lleol – nawr ac wrth i'r cyfyngiadau lacio.

Wrth ddatblygu ein canllawiau i ymwelwyr, buom yn gweithio'n agos iawn gyda'n grŵp ymwelwyr rhanddeiliaid sy'n cynnwys cynrychiolwyr o swyddfeydd y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant yn ogystal â chynrychiolwyr eraill o'r sector, gan gynnwys lechyd Cyhoeddus Cymru.

Byddwn yn gwerthuso effaith ein rhaglen beilot gwerth £3 miliwn ac rydym yn hapus â lefel y diddordeb a'r ymgysylltiad yn y cynllun hwn hyd yma. Erbyn hyn, rydym wedi dod o hyd i gyfanswm o 101 o bodiau i ymwelwyr drwy'r rhaglen ac mae 93 pod wedi'u gosod mewn cartrefi gofal ledled Cymru. Mae'r rhaglen beilot yn cynnwys hyd at £1 miliwn sydd ar gael drwy'r gronfa galedi i gefnogi darparwyr sy'n dewis llogi eu podiau eu hunain ar gyfer ymwelwyr. Mae ceisiadau am gyllid yn cael eu hasesu fel y'u derbynir.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod £250,000 wedi'i ychwanegu at y gronfa cymorth gofalwyr gwerth £1 miliwn. Fodd bynnag, gan fod hon yn dod i ben ym mis Mawrth 2021, a allech roi eglurhad o ba gymorth fydd ar gael ar ôl mis Mawrth i ofalwyr sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol.

Un agwedd ar gymorth i ofalwyr di-dâl yw budd-daliadau lles, lle mae ganddynt hawl i'r rhain. Pan wnaethom sefydlu ein Cronfa Gyngori Sengl, roeddem yn mynnu bod darparwyr yn gwirio hawl i fudd-daliadau lles i bawb a oedd yn defnyddio eu gwasanaeth, waeth beth oedd eu problemau cyfredol. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, roedd y canolfannau cyngor ynghylch budd-daliadau a gyflawnir drwy'r Gronfa Gyngori Sengl wedi helpu pobl yng Nghymru i hawlio dros £34 miliwn o incwm ychwanegol drwy fudd-daliadau lles. Mae'r incwm ychwanegol hwn yn helpu i godi pobl allan o dlodi, i leddfau eu pwysau ariannol ac, yn bwysig iawn, i roi hwb i wariant mewn economïau lleol ledled Cymru.

Fodd bynnag, gwyddom fod angen gwneud mwy i gyrraedd y grwpiau hynny sy'n methu'n gyson â hawlio budd-daliadau lles, gan gynnwys gofalwyr. Felly, mae partneriaid Cyngor a Mynediad y Gronfa Gyngori Sengl yn cynnal cynlluniau peilot 'Profi a Dysgu' yn chwe ardal y Gronfa, ac yn darparu negeseuon wedi'u teilwra a chymorth i annog y grwpiau sy'n lleiaf tebygol o hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo i fanteisio ar hyn. Dechreuodd y cynlluniau peilot ym mis Hydref 2020 a byddant yn dod i ben ym mis Mawrth 2021, a bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu. Yn ystod y 3 mis cyntaf, cyrhaeddodd y cynlluniau peilot 601 o bobl a'u cyngori ynghylch mwy na 1,600 o faterion yn ymwneud â'u hawl i fudd-daliadau lles a'u helpu i gael incwm ychwanegol o oddeutu £1m y flwyddyn. Bydd yr hyn a ddysgir o'r cynlluniau peilot yn cael ei rannu'n eang ddechrau mis Mai, ac yn helpu pobl o grwpiau allweddol, fel gofalwyr, i barhau i hawlio'r holl gymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo.

Mae'r pwysau ariannol ar ofalwyr wedi cynyddu yn ystod y pandemig ac er bod grantiau bach i ofalwyr a theuluoedd unigol yn gallu rhoi rhywfaint o ryddhad i'r rheini sy'n gymwys, fel drwy'r Gronfa Gofalwyr, neu grantiau cymorth awdurdodau lleol, ein cyllid i gefnogi systemau a darparu gwasanaethau yw'r brif ffordd o gefnogi gofalwyr nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn parhau i ddarparu adnoddau sylweddol i awdurdodau lleol i'w galluogi i ddarparu'r gwasanaethau a'r gefnogaeth y mae eu cymunedau'n dibynnu arnynt. Yn ogystal â'r Setliad, mae Cronfa Galedi Llywodraeth Leol yn dal ar gael i gefnogi awdurdodau lleol gyda'r costau ychwanegol o ymateb i'r pandemig.

Mae cyllid ar wahân gan Lywodraeth Cymru i ofalwyr yn canolbwyntio ar ddarparu ychwanegoldeb i wasanaethau statudol, ac rydym yn darparu £2.6 miliwn dros dair blynedd (2020-23) i Gofalwyr Cymru, Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru Gyfan, Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ac Age Cymru, drwy ein Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ar gyfer y Trydydd Sector. Nod y pedwar prosiect yw darparu ystod o gefnogaeth i ofalwyr o bob oed yn ogystal â gweithio gyda staff iechyd a gofal cymdeithasol i wella ymwybyddiaeth o'r materion sy'n effeithio ar ofalwyr, a sut i gefnogi gofalwyr yn well. Hefyd, mae ein £1m o gyllid blynyddol i fyrddau iechyd lleol ar gyfer gofalwyr wedi cael ei ddefnyddio yn ystod

2020-21 i helpu gofalwyr sy'n cael trafferth gyda phwysau cynyddol y pandemig, ac rydym yn ystyried y cyllid hwn ar gyfer 2021-22 ar hyn o bryd. Yn olaf, fel y nodwyd uchod, mae gofalwyr yn parhau i elwa ar brosiectau o dan y Gronfa Gofal Integredig ac yn 2020-21 rydym wedi buddsoddi refeniw o £89m a chyfalaf o £35m yn y Gronfa honno. Gan adeiladu ar lwyddiant hyd yma, rydym yn buddsoddi yn y Gronfa Gofal Integredig am flwyddyn arall gyda chyllideb refeniw o £89m yn 2021-22.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod rhai gwasanaethau cymorth i ofalwyr ifanc wedi gallu symud ar-lein yn ystod y pandemig a bod y cerdyn gofalwyr ifanc yn cael ei lansio. A yw Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau pellach i gefnogi gofalwyr ifanc neu roi seibiant iddynt, yn enwedig y rhai nad ydynt yn gallu mynd i'r ysgol ar hyn o bryd.

Nodwyd yr anghenion a'r materion sy'n effeithio ar ofalwyr ifanc, a gofynnwyd sawl cwestiwn ynghylch sut i wella cymorth a chefnogaeth i ofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr, fel rhan o'n hymgyngoriad cyhoeddus a ddaeth i ben yn ddiweddar i ddatblygu cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer gofalwyr. Roedd hyn yn cynnwys cynnig am bedwaredd flaenoriaeth genedlaethol newydd i ofalwyr a fyddai'n canolbwyntio ar ofalwyr mewn addysg a gofalwyr cyflogedig. Mae swyddogion wrthi'n dadansoddi'r ymatebion.

Fodd bynnag, ers dechrau'r pandemig, rydym wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau gofalwyr cenedlaethol, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, i ddeall sut yr effeithir ar ofalwyr ifanc. Roeddem yn falch o weithio gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, Fferylliaeth Gymunedol Cymru ac eraill i ddatblygu canllawiau ac adnoddau i helpu pob gofalwr i gael gafael ar feddyginiaeth ar gyfer y rheini maen nhw'n gofalu amdanynt. Hefyd, fel dysgwyr agored i niwed, mae gofalwyr ifanc yn dal yn gymwys i ddefnyddio lleoliadau dysgu ochr yn ochr â phlant gweithwyr allweddol. Hyd yn oed cyn y pandemig roeddem yn gwybod bod yr ysgol yn darparu math o seibiant o'r rôl ofalu i lawer o ofalwyr ifanc. Rydym yn parhau i'w hannog i gysylltu â'u hawdurdod lleol i drafod eu hanghenion fel dysgwyr agored i niwed, ac o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) mae gan ofalwyr ifanc hawl i gael asesiad o anghenion gofalwyr. Tra eu bod gartref, mae amrywiaeth eang o sefydliadau wedi darparu gweithgareddau i'w helpu i gael rhyw fath o seibiant. Mae ein cyllid £1m ar gyfer byrddau iechyd lleol a phartneriaethau gofalwyr wedi cael ei ddefnyddio mewn sawl ffordd gan y partneriaethau hyn i gefnogi prosiectau gofalwyr ifanc. Mae enghreifftiau'n cynnwys dosbarthiadau coginio ar-lein a danfon "pecynnau lles".

Fodd bynnag, gwyddom fod angen ystod eang o fecanweithiau cymorth i helpu pob person ifanc, gan gynnwys gofalwyr ifanc, yn enwedig gydag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl. Yn 2020, gwnaethom gynhyrchu Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc a gallant gael gafael ar gymorth drwy wasanaeth llinell gymorth CALL, a gwefan a llinell gymorth MEIC. Ar 1 Chwefror, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg y bydd £9.4 miliwn ychwanegol ar gael yn benodol i gefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru, a bydd y cyllid ychwanegol yn cydnabod yr effaith y mae bod i ffwrdd o'r ysgol a rhwydweithiau cefnogi rheolaidd wedi'i chael ar bobl ifanc yn ystod y pandemig. <https://gov.wales/pledge-support-youth-extra-ps94m-investment-children-and-young-people-mental-health-services>

Gwybodaeth am sut mae gwaith cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer adferiad ar ôl COVID-19 yn ystyried y goblygiadau ar gyfer gofal cymdeithasol o ganlyniad i:

- **Oedi o ran cynnal asesiadau ac adolygiadau dementia yn ystod y pandemig; ac**
- **Anghenion a allai godi o ganlyniad i COVID hir.**

Mewn perthynas ag Asesiadau Dementia, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi £10m i gefnogi'r gwaith o weithredu Cynllun Gweithredu Dementia 2018-22 y flwyddyn nesaf, gyda'r rhan fwyaf o'r cyllid hwn (dros £9m) yn cael ei ddyrannu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Rydyn ni'n cydnabod y bydd y pandemig wedi effeithio ar wasanaethau ac felly, ar y cyd â'r Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia, rydyn ni'n adolygu ein cynllun gweithredu presennol i ystyried pa gamau pellach sydd angen eu cymryd.

Hefyd, yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2021/22 rydym yn cynnig darparu hyd at £3m o arian ar gyfer gwella gwasanaethau er mwyn cefnogi gwasanaethau asesu'r cof a'r cymorth cofleidiol hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi wrth iddynt fynd drwy'r broses hon o gael eu hasesu a chael diagnosis.

Yn fwy cyffredinol, rydym yn parhau i ddysgu mwy am COVID hir o ymchwil a phrofiadau pobl. Gwyddom fod pobl yn cael ystod o anawsterau tymor hir ac er bod pob person yn wahanol, mae'r rhain yn cynnwys blinder, diffyg anadl, poen a phroblemau cardiaidd, resbiradol, gwybyddol a niwrolegol. Rydym yn defnyddio dull mwy personol yng Nghymru i ddiwallu anghenion penodol yr unigolyn oherwydd bod ystod mor eang o effeithiau yn gysylltiedig â COVID.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) wedi datblygu canllawiau clinigol, a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2020: <https://www.nice.org.uk/guidance/NG188>.

Mae'r canllawiau'n ymdrin â chanfod, asesu a rheoli effeithiau hirdymor COVID-19 ac mae'n defnyddio'r diffiniadau clinigol canlynol:

- **COVID-19 aciwt:** arwyddion a symptomau COVID-19 am hyd at bedair wythnos.
- **COVID-19 parhaus symptomatig:** arwyddion a symptomau COVID-19 am bedair i 12 wythnos.
- **Syndrom ôl-COVID-19:** arwyddion a symptomau sy'n datblygu yn ystod neu ar ôl haint sy'n gyson â COVID-19, ac yn para am fwy na 12 wythnos ac nad ydy diagnosis arall yn gallu eu hegluro.

Yn ogystal â'r diffiniadau o achosion clinigol, mae NICE yn cydnabod bod 'COVID hir' yn cael ei ddefnyddio'n aml i ddisgrifio arwyddion a symptomau sy'n parhau neu'n datblygu ar ôl COVID-19 aciwt, hy mae'n cynnwys COVID-19 parhaus symptomatig a syndrom ôl-COVID-19.

Cyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig ar 20 Ionawr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau yng Nghymru i gefnogi pobl sy'n dioddef effeithiau tymor hirach COVID 19: <https://gov.wales/written-statement-longer-term-effects-covid-19>.

Hefyd, mae'r Grŵp Cyngor Technegol wedi cyhoeddi papur ar 3 Chwefror o'r enw '[Covid Hir – beth ydyn ni'n ei wybod a beth sydd angen i ni ei wybod?](https://llyw.cymru/y-grwp-cyngor-technegol-covid-hir?_ga=2.155353787.1807395496.1612862720-2107173052.1588868234)' sy'n dwyn ynghyd dystiolaeth ac ymchwil diweddaraf y DU a rhyngwladol i gefnogi polisïau a gweithredu lleol: https://llyw.cymru/y-grwp-cyngor-technegol-covid-hir?_ga=2.155353787.1807395496.1612862720-2107173052.1588868234. Mae'r papur yn nodi rhagor o gwestiynau ymchwil pwysig i ddeall a monitro effaith COVID hir ar unigolion a gwasanaethau yng Nghymru, ac i ddatblygu llwybrau gofal effeithiol. Bydd angen adolygu'r rhain yn barhaus wrth i anghenion tystiolaeth gael eu diwallu drwy astudiaethau ymchwil parhaus ac yn y dyfodol, ac wrth i feysydd angen newydd ddod i'r amlwg.

Mae effaith yr effeithiau tymor hwy hyn yn effeithio ar bob claf a gwasanaeth ac mae'n ystyriaeth mewn cynlluniau adfer. Rydyn ni eisïau i bobl sydd â syndrom ôl-Covid allu cael mynediad at y rhan fwyaf o'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw – boed hynny'n asesiadau, diagnosis, triniaeth ac adsefydlu – mor agos i gartref â phosibl neu drwy wasanaethau o bell, a dim ond yn gorfod teithio am wasanaethau mwy arbenigol, y mae'n rhaid eu darparu mewn ysbyty aciwt.

Mae adsefydlu yn elfen hanfodol o ofal i bobl sy'n gwella o COVID-19. Mae hefyd yn hanfodol i grwpiau o bobl y mae'r pandemig yn effeithio arnynt yn anuniongyrchol, gan gynnwys y rheini sydd â dementia. Mae hyn yn cynnwys pobl y cafodd eu gofal ei ohirio, y rheini a allai fod wedi gohirio gofyn am gyngor ynghylch problem iechyd, a'r rheini y mae'r cyfyngiadau symud wedi effeithio arnynt, fel y rheini sydd wedi cael eu hynysu neu wedi bod yn gwarchod.

Mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a chydweithwyr wedi bod yn gweithio'n greadigol ac yn gyson i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n rheolaidd lle bo hynny'n bosibl drwy gadw mewn cysylltiad â'u cleifion heb anghenion brys, er mwyn rhoi cyngor i'w helpu i ymdopi. Mae gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd wedi rhoi llawer o bethau arloesol ar waith, fel cynnal sesiynau neu grwpiau adsefydlu ar-lein, defnyddio Attend Anywhere ar gyfer ymgynghoriadau, a darparu cymorth seicolegol drwy ymgynghoriadau fideo er mwyn darparu'r cyngor a'r gofal yn ddiogel pan nad ydynt yn gallu gweld pobl wyneb yn wyneb.

Y diweddaraf ynglŷn â chyflenwadau cyfarpar diogelu personol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol. Yn benodol, unrhyw gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod cyflenwad priodol a chynaliadwy o gyfarpar diogelu personol ar gael i ddiwallu anghenion ym maes gofal cymdeithasol o hyn allan.

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ac rydym wedi datblygu cynllun strategol ar gyfer caffael cyfarpar diogelu personol. O ganlyniad i'r gwaith hwn mewn partneriaeth, rwy'n falch o gadarnhau bod ein sefyllfa o ran cyfarpar diogelu personol yn parhau i fod yn sefydlog. Cedwir y rhan fwyaf o'r eitemau a argymhellir mewn stoc sy'n ddigon i bara am gyfnod o 24 wythnos a bydd hynny'n wir am bob eitem erbyn diwedd y mis hwn.

Rydym hefyd wedi helpu i hwyluso cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer darparu cyfarpar diogelu personol rhwng Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a

Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer parhau i gyflenwi 100% o'r cyfarpar diogelu personol a argymhellir ar gyfer gofal cymdeithasol, a fydd yn parhau i gael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cytundeb lefel gwasanaeth ar waith tan ddiwedd mis Awst 2021.

Rydym yn parhau i ddilyn y canllawiau Atal a Rheoli Heintiau mewn perthynas â defnyddio cyfarpar diogelu personol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol – mae'r canllawiau hyn yn cael eu defnyddio ledled y DU ac yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r data diweddaraf. Cafodd y canllawiau Atal a Rheoli Heintiau eu hystyried yn ddiweddar yng ngoleuni'r amrywiolyn newydd ac nid yw ein sefyllfa o ran cyfarpar diogelu personol wedi newid yn y canllawiau sydd newydd gael eu cyhoeddi. Bydd y canllawiau, ac o ganlyniad ein sefyllfa o ran cyfarpar diogelu personol, yn cael eu hadolygu'n gyson wrth i ragor o dystiolaeth a data fod ar gael.

Gobeithio bod yr wybodaeth uchod yn ddefnyddiol i chi wrth baratoi adroddiad y Pwyllgor.

Yn gywir



Vaughan Gething AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services